## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN – MWSOGLAU (BRYOFFYTAU)

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**.
Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.


Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

Cyfeiriwch at y British Bryological Society i gael gwybodaeth fanylach a disgrifiadau o'r rhywogaethau.

S. Bosanquet sydd piau hawlfraint pob llun

| RHYWOGAETHAU | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| edeufwsogl y Baltig - *Bryum marratti*  | • **Cynefin cysylltiedig:** Twyni<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin fe'i ceir ar ochr ogleddol Twyni Tywyn, a ger Glanyfferi ym Morfa Uchaf. Yn y ddau leoliad, mae dŵr croyw yn llifo o'r twyni i forfa heli sy'n cael ei bori.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** newid defnydd tir, y newid hinsawdd, adlinio'r arfordir | • Pori'r ardal lle mae'r twyni'n ffinio â'r morfa heli ar gyfer *Bryum marratii* |
| mwsogl afon aml-ffrwythog<br>*Dendrocryphaea lamyana*  | • **Cynefin cysylltiedig:** Dŵr croyw<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin fe'i ceir ar Afon Teifi o amgylch Cenarth, Henllan, Pont-tyweli a Maesycrugiau, ond mae'n fwy cyffredin ar lan ogleddol heulog yr afon. Hefyd ar un safle ar Afon Tywi yn Nantgaredig – y ddwy Ardal Cadwraeth Arbennig. Fe'i ceir ar greigiau ar lannau ac ar goed sy'n gordyfu dros afonydd.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** cysgodi, ychwanegu maethynnau | • Gwybodaeth wedi'i throsglwyddo i enweirwyr lleol. |
| daltonia Gwyddelig<br>*Daltonia spachnoides* | • **Cynefin cysylltiedig:** Yn ymledu i Gymru o Iwerddon - yn hoff o helyg llaith iawn mewn ardaloedd o gonifferau.<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, ceir tri chofnod o Goedwig Brechfa ac un cofnod ger Llyn Brianne.<br>• **Tueddiadau:** ar gynnydd<br>• **Bygythiadau:** dim, ac nid yw'n flaenoriaeth bellach o ran cadwraeth | • Dim camau addas. |

| | | |
|---|---|---|
|  | | |
| mwsogl y plwm<br>*Ditrichum plumbicola*<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Mwyngloddiau<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, fe'i darganfuwyd ar ddau fwynglawdd plwm segur yn Rhandir-mwyn. Dynodwyd y prif safle yn 2013 fel SoDdGA Mwyngloddfa Nant-y-mwyn.<br>• **Tueddiadau:** yn sefydlog, yn dilyn gwaith monitro yn 2020<br>• **Bygythiadau:** gwaith adfer mwyngloddiau | • Gwarchodaeth SoDdGA ar gyfer *Ditrichum plumbicola* a *Scopelophila cataractae* |
| mwsogl copr dail tafod<br>*Scopelophila cataractae*<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Mwyngloddiau<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, fe'i darganfuwyd mewn mwyngloddiau plwm segur yn Rhandir-mwyn. Dynodwyd y safle yn 2013 fel SoDdGA Mwyngloddfa Nant-y-mwyn.<br>• Canfuwyd poblogaeth hefyd yn 2017 yn Aber Afon Llwchwr yn y Bynea. Cafwyd hyd i lawer o glytiau wedi'u gwasgaru ar y ddwy lain o slag a adawyd ar y forfa heli yn yr ardal honno.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys yn Rhandir-mwyn, yn sefydlog yn y Bynea<br>• **Bygythiadau:** adfer mwyngloddiau, gwaith adeiladu | • Gwarchodaeth SoDdGA ar gyfer *Ditrichum plumbicola* a *Scopelophila cataractae* |
| crafancfwsogl y mynawyd *Ditrichum subulatum* | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, ceir hyd iddo ar lannau asidig uwch ben cilfachau arfordirol. Ceir un cofnod o aber afon Taf, i'r gogledd o Gartref Dylan Thomas yn Nhalacharn.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** erydu arfordirol | • Arolwg pellach ar gyfer *Ditrichum subulatum* (glannau aberoedd) |
| pocedfwsogl Portiwgal<br>*Fissidens curvatus* | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, cafwyd hyd iddo yng Nghastell Dryslwyn, ond mae prysgoed ar ffurf eithin wedi ymledu yno. Fe'i cofnodwyd hefyd ar glawdd heol fach ger Llandeilo.<br>• **Tueddiadau:** yn prinhau, wedi'i golli o Gastell Dryslwyn fwy na thebyg.<br>• **Bygythiadau:** prysgwydd yn ymledu i'w ardaloedd | • Clirio prysgwydd yng Nghastell Dryslwyn ar gyfer *Fissidens curvatus/* trafod gyda CADW? |

| | | |
|---|---|---|
|  | | |
| llysiau'r afu petalaidd *Petalophyllum ralfsii*<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Twyni<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, cafwyd hyd iddo yn Nhwyni Talacharn-Pentywyn; wedi diflannu o Dwyni Pen-bre a Thywyn.<br>• **Tueddiadau:** ar gynnydd yn Nhwyni Talacharn-Pentywyn ar ôl prinhau am gyfnod.<br>• **Bygythiadau:** sefydlogi twyni, adeiladu | • Rheolaeth gan QINETIQ ym Maes Tanio Pentywyn i ddiogelu llysiau'r afu petalaidd, gan gynnwys asesiad hydrolegol diweddar |
| mwsogl cynffon gwiwer fechan<br>*Habrodon perpusillus* | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, cafwyd hyd iddo ar sycamorwydd ar Fryn Sant Ioan, ar ochr ddeheuol Talacharn.<br>• **Tueddiadau:** Mae *Habrodon perpusillus* ar gynnydd ar draws de Cymru, felly nid ystyrir ei fod yn flaenoriaeth o bwys bellach<br>• **Bygythiadau:** gwaith coed | • Gwarchod sycamorwydd ar Fryn Sant Ioan ar gyfer *Habrodon perpusillus*<br>• Wedi hysbysu Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch presenoldeb mwsogl ar Fryn Sant Ioan. |
| mwsogl minfoel dail atblyg<br>*Weissia squarrosa*<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, wedi ei ddarganfod ar ymyl ffordd ger Glanyfferi.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** plannu coed | • Arolwg pellach (tir âr a gwndwn rhygwellt)<br>• Trosglwyddo'r manylion i Adran Briffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer rheoli ymylon ffyrdd. |
| llysau'r afu gwylaeth y gors *Pallavicinia lyellii*<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r rhywogaeth hon i'w gweld mewn glaswellt y gweunydd sy'n tyfu'n fras ac yn dwmpathog yng Nghors Goch, Cors y Glyn, Llyn Llech Owain, a Llanpumsaint, ac yn ddiweddar cafwyd hyd iddi ar gefnen uwchlaw Rhandir-mwyn.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** newid yr hinsawdd, cyfoethogi â maethynnau | • Rheoli lefel y dŵr ar gorsydd ar gyfer *Pallavicinia lyellii* |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhywogaethau A7 a ganfuwyd yn ardal PCBB yn Sir Gaerfyrddin, ond a allai fod yn bresennol o fewn ardal Partneriaeth Natur Sir Gâr** | | |
| crychfwsogl bregus *Fossombronia fimbriata*<br> | • **Cynefin cysylltiedig:**<br>• **Statws presennol:** Yn ardal PCBB yn Sir Gaerfyrddin, ceir hyd iddo ym Mhont-ar-Wysg lle mae llwybr defaid yn croesi llac cyfoethog.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** carthu afonydd, plannu coed | • Cynnal tir pori'r ucheldir ar gyfer *Fossombronia fimbriata* |
| crychfwsogl tyllog<br>*Fossombronia foveolata*<br><br>Mae'r rhan fwyaf o *Fossombronia* yn edrych yn union yr un peth, ac mae angen gwirio'u sborau. | • **Cynefin cysylltiedig:**<br>• **Statws presennol:** Yn ardal PCBB yn Sir Gaerfyrddin, ceir hyd iddo ar lannau Cronfa Ddŵr Wysg.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** y newid hinsawdd | • Arolwg pellach - pyllau'r ucheldir. |
| **Rhywogaethau Adran 7 a gofnodwyd yn flaenorol yn y sir ond yr ystyrir eu bod bellach wedi diflannu ohoni** | | |
| mwsogl troellog Wilson - *Pottia wilsonii/Tortula wilsonii*<br> | • Diflanedig, fe'i cofnodwyd unwaith ger Llansteffan yn 1907. | • Arolwg pellach o lethrau'r arfordir ger Llansteffan - haenau tenau o bridd ar greigiau'r arfordir |
| edeufwsogl arfor -*Bryum warneum* | • Heb ei weld yn Sir Gaerfyrddin ers 1910 ond cafwyd hyd iddo'n ddiweddar yn Nhwyni Whiteford. | • Symud twyni ar gyfer *Bryum warneum* a *Petalophyllum ralfsii*<br>• Gwaredu rhafnwydd y môr o dwyni arfordirol - Cyngor Sir Caerfyrddin, y Weinyddiaeth Amddiffyn a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ail-greu llaciau twyni ar y meysydd ymarfer ym Mhentywyn a Phen-bre - Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Rhywogaethau ychwanegol posibl o Bwysigrwydd Lleol**<br>Dyma restr o Rywogaethau o Bwysigrwydd Lleol eraill y dylem hefyd eu hystyried ochr yn ochr â rhestr flaenoriaeth gyfredol A7. Gallai'r rhain fod yn rhywogaethau a ganfuwyd yn Sir Gaerfyrddin (cofnodion ar ôl 2000) sydd:<br>• yn brin yn genedlaethol, dan fygythiad neu'n anfynych<br>• yn brin yn Sir Gaerfyrddin<br>• ar y rhestr Goch<br>a lle bo Sir Gaerfyrddin yn gyfrifol am sicrhau bod y rhywogaeth yn goroesi ac yn ffynnu, a'n bod yn gallu nodi'r camau angenrheidiol o ran cadwraeth. | | |
| *Bryum dyffrynense*, | Darganfuwyd yn ddiweddar yn Nhwyni Talacharn-Pentywyn, tueddiadau anhysbys | |
| *Bryum riparium*, | un cofnod ar lan nant yng ngogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin, tueddiadau anhysbys | Angen arolygu pellach |
| *Drepanocladus sendtneri* | I'w gael ar un llac twyni yn Nhwyni | |

| | | |
|---|---|---|
| | Talacharn-Pentywyn, tueddiadau anhysbys, bygythiadau'n cynnwys gwaith rheoli twyni | |